

Ysoloriaeth Chwaraeon *Ffurflen Gais*

Sicrhewch eich bod yn cwblhau pob adran, a chofiwch gynnwys geirda.

- £500 y flwyddyn, am bob blwyddyn o'ch cwrs
- Aelodaeth *Platinwm* yn rhad ac am ddim o Ganolfan Chwaraeon y Brifysgol trwy gydol eich cwrs
- Sicrwydd o lety yn neuaddau'r Brifysgol trwy gydol eich cwrs
- Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau gan ISRADEDEDIGION: 30 Mehefin 2019
- Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau gan UWCHRADEDEDIGION: 31 Gorffennaf 2019

MANYLION PERSONOL

Rhif Personol UCAS Israddedig (os yw'n berthnasol):

--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

Rhif Cais Uwchraddedig (os yw'n berthnasol):

--	--	--	--	--	--

Eich Chwaraeon:

Enw(au) cyntaf:

Cyfenw:

Dyddiad geni:

Cyfeiriad Cartref:

.....

..... Cod Post:

Rhif ffôn symudol / rhif ffôn cyswllt:

Cyfeiriad e-bost:

Cwrs y ceisiwyd amdano:

Ble clywsoch am Ysgoloriaethau Chwaraeon Aberystwyth?

Dylech gynnwys cymaint o wybodaeth berthnasol â phosib i gefnogi'ch cais; efallai yr hoffech gynnwys tystiolaeth ategol megis lluniau, toriadau wasg, ac ati.

MANYLION CHWARAEON

1. Cyflawniadau ym myd chwaraeon: rhestrwch eich cyflawniadau ym myd chwaraeon **dros y 2 flynedd ddiwethaf**, gan gynnwys y lefel a gyrhaeddwyd, unrhyw achlysur pan oeddech yn cynrychioli ysgol/clwb/gwlad (gan gynnwys safleoedd cenedlaethol, canlyniadau twrnameintiau / cystadlaethau, gwobrau ayyb.) Nodwch ddata gwrthrychol am eich perfformiad, manylion o amserau gorau, a dyddiadau lle bo'n briodol. Gallwch barhau ar dudalen ar wahân os bydd angen.

2. Nodau Perfformiad: nodwch eich uchelgeisiau chwaraeon eglur a realistig am y tair blynedd nesaf, ynghyd â manylion o'r modd y byddwch yn bwriadu gwireddu eich amcanion. Dylech gynnwys, lle'n briodol, cynlluniau ymarfer, rhagfynegiadau o wella amserau/sgôr, unrhyw ddigwyddiadau/cystadlaethau sy'n dod lan.

3. Aelodaeth a Hyfforddiant: rhowch fanylion am unrhyw glybiau chwaraeon y buoch yn aelod ohonynt, neu unrhyw hyfforddiant gan gynnwys hyfforddiant ar lefel uwch a gawsoch yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Nodwch y dyddiadau hefyd.

4. Anafiadau: nodwch a ydych wedi cael unrhyw anafiadau / salwch sydd wedi eich rhwystro rhag hyfforddi a chystadlu dros y ddwy flynedd ddiwethaf, neu sy'n debygol o effeithio ar eich perfformiad tra bod chi yn Aberystwyth. Os ydych chi, rhowch fanylion.

5. Rhagor o fanylion: heb ddefnyddio mwy na 500 o eiriau, nodwch rhai ffactorau ychwanegol sydd yn cefnogi eich cais ar gyfer Ysgoloriaeth Chwaraeon yn Aberystwyth, gan gynnwys manylion eich rhaglen hyfforddi gyfredol. Rhowch wybodaeth eglur a pherthnasol sy'n atgyfnerthu eich cyfaddasrwydd am wobr. Soniwch am unrhyw gefndir perthnasol i'ch cyflawniadau ym myd chwaraeon, uchafbwyntiau perfformiad, beth ydych chi'n mwynhau am eich chwaraeon a pham? Beth sy'n arbennig amdanoch chi? Pam ddylech chi dderbyn Ysgoloriaeth Chwaraeon yn lle rhywun arall? (Parhewch dros y dudalen ac ar dudalen ar wahân os bydd angen).

Rhagor o fanylion (parhad):

6. Geirda: RHAID i chi gynnwys llythyr geirda gan ganolwr. Dylai'r unigolyn hwnnw allu gwneud sylwadau ar eich cyflawniadau ym myd chwaraeon, a chadarnhau pa mor gyraeddadwy a chredadwy mae eich gobeithion, e.e. hyfforddwr / Corff Llywodraethu Cenedlaethol. Bydd geirda effeithiol yn cadarnhau ac ychwanegu at y wybodaeth yn y ffurflen gais.

Dylai ymgeiswyr israddedig nodi bod rhaid iddynt wneud cais i Aberystwyth trwy UCAS erbyn 30 Mehefin, ac yna dal Aberystwyth fel dewis Cadarn o Brifysgol. **Rhaid cwrdd â thelerau eich cynnig UCAS yn llawn er mwyn cael eich ystyried ar gyfer Ysgoloriaeth Chwaraeon.**

Datganiad: Rwy'n datgan bod y manylion a roddwyd ar y ffurflen gais hon yn ddisgrifiad cywir o'm statws a'm cyflawniadau ym myd chwaraeon. Os bydd y cais yn llwyddiannus, rwy'n ymrwmo i gydymffurfio ag amodau'r wobwr, ac yn derbyn y gellir defnyddio fy manylion mewn deunyddiau cyhoedduswydd i'r Brifysgol.

Llofnod: Dyddiad:

Dychweler y ffurflen hon erbyn 30 Mehefin 2019 (israddedigion) neu 31 Gorffennaf 2019 (uwchraddedigion):

Marchnata a Denu Myfyrwyr, Adeilad Cledwyn,
Prifysgol Aberystwyth, Campws Penglais, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3DD
Ffôn: 01970 622065 E-bost: marchnata@aber.ac.uk
Rhoddir gwybod i ymgeiswyr a oedd eu cais yn llwyddiannus ai peidio erbyn diwedd mis Medi 2019